

Y Comisiwn Etholiadol

Cynlluniau peilot adnabod pleidleiswyr Mai 2018

Canfyddiadau ac argymhellion

Gorffennaf 2018

Cynnwys

Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol	1
Cefndir	2
Effaith ar bleidleiswyr	5
Effaith ar y modd y gweinyddir etholiadau	11
Effaith ar hyder y cyhoedd	16
Effaith ar ddiogelwch	20
Ein hargymhellion	21
Atodiad A: Crynodeb o'r gofynion o ran prawf adnabod	24

Crynodeb o'r canfyddiadau allweddol

Yn gyffredinol, gweithiodd y gofynion adnabod pleidleiswyr a dreialwyd ym mis Mai 2018 yn dda. Roedd bron pawb yn y pum ardal cynllun peilot a aeth i bleidleisio yn eu gorsaf bleidleisio yn gallu dangos prawf adnabod heb anhawster. Roedd nifer bobl na wnaethant bleidleisio am nad oeddent yn gallu dangos prawf adnabod yn fach iawn.

Roedd pobl yn yr ardaloedd lle cynhaliwyd y cynlluniau peilot yn llai tebygol o lawer o feddwl bod twyll etholiadol wedi digwydd na phobl mewn ardaloedd eraill lle cynhaliwyd etholiadau ym mis Mai 2018. Roedd Swyddogion Canlyniadau a'u staff mewn gorsafedd pleidleisio yn gallu cynnal y prosesau newydd yn dda a heb unrhyw broblemau mawr.

Mae'r cynlluniau peilot hyn wedi darparu tystiolaeth gychwynnol ddefnyddiol a phwysig ynglŷn â sut y gallai gofyniad o ran adnabod pleidleiswyr ym Mhrydain Fawr weithio yn ymarferol. Maent hefyd wedi amlygu meysydd lle mae angen gwneud rhagor o waith, gan nad oes digon o dystiolaeth eto i fynd i'r afael yn llawn â phryderon ac ateb cwestiynau am effaith gofynion adnabod ar bleidleiswyr.

Nid oedd yr awdurdodau yn Lloegr a gymerodd ran yng nghynlluniau peilot 2018 yn ddigon amrywiol i fod yn gynrychioliadol o'r ardaloedd gwahanol a'r grwpiau gwahanol o bobl ar draws gweddill Prydain Fawr. Mae hyn yn golygu na allwn fod yn siŵr a fyddai pobl mewn ardaloedd eraill yn cael problemau o ran dangos prawf adnabod.

Gwyddom hefyd o waith dadansoddi blaenorol ac adborth gan sefydliadau eraill fel Mencap ac RNIB fod rhai grwpiau o bobl yn ei chael hi'n anoddach nag eraill i ddangos pasbort, trwydded yrru neu gerdyn teithio fel rhan o gynllun adnabod ar ffurf llun. Mae gennym rywfaint o dystiolaeth gyfyngedig o'r cynlluniau peilot hyn sy'n nodi bod pobl iau a'r rheini nad ydynt bob amser yn pleidleisio yn llai tebygol o ddweud y byddent yn ei chael hi'n hawdd dangos prawf adnabod. Mae angen gwneud mwy o waith er mwyn sicrhau y gall y bobl hyn gael y math cywir o brawf adnabod yn hawdd er mwyn gallu pleidleisio.

Gwaith pellach a chynlluniau peilot yn y dyfodol

Pan wahoddodd Llywodraeth y DU gynghorau lleol i gynnal cynlluniau peilot ym mis Mai 2018, dywedodd hefyd ei bod yn fodlon ystyried cynnal cynlluniau peilot mewn etholiadau yn y dyfodol. Gwnaethom gytuno y byddai'n ddefnyddiol casglu mwy o dystiolaeth o gynlluniau peilot eraill mewn etholiadau yn 2019.

Mae'r cynlluniau peilot hyn wedi dangos y gall fod sawl ffordd o gyflwyno cynllun adnabod pleidleiswyr ym Mhrydain Fawr. Dylai Llywodraeth y DU

ganolbwyntio yn awr ar ba dystiolaeth arall sydd ei hangen arnynt i ateb cwestiynau a mynd i'r afael â phryderon am effaith fanylach gofyniad adnabod pleidleiswyr, a sut y bydd dyluniad cynlluniau peilot yn y dyfodol yn helpu i ddarparu'r dystiolaeth honno.

Rydym wedi nodi rhai gwersi pwysig o gynlluniau peilot 2018 yn yr adroddiad hwn ac wedi gwneud argymhellion ar gyfer gwaith pellach a chynlluniau peilot yn y dyfodol. Byddai'r argymhellion hyn, a restrir ar dudalennau 19-21 isod, yn helpu i ddarparu'r sail dystiolaeth orau posibl ar gyfer unrhyw benderfyniadau ynglŷn â gofynion adnabod i bleidleiswyr mewn gorsafoedd pleidleisio ym Mhrydain Fawr.

Ein prif argymhelliad yw y dylai Llywodraeth y DU annog ystod ehangach o gynghorau lleol i gynnal cynlluniau peilot ym mis Mai 2019. Dylai'r rhain gynnwys cymysgedd o ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol mawr, ac ardaloedd â phroffiliau demograffig gwahanol. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod dystiolaeth fanylach am effaith prawf adnabod ar grwpiau gwahanol o bobl.

Cefndir

Cynlluniau peilot Mai 2018

1.1 Nid oes angen i bleidleiswyr mewn gorsafoedd pleidleisio ym Mhrydain Fawr ddangos unrhyw brawf adnabod cyn y gallant bleidleisio. Yn 2014, gwnaethom argymhell y dylai fod yn ofynnol i bleidleiswyr ym Mhrydain Fawr ddangos rhyw fath o brawf adnabod cyn pleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio yn y dyfodol.¹ Mae wedi bod yn ofynnol i bleidleiswyr yng Ngogledd Iwerddon ddangos prawf adnabod ar ffurf llun mewn gorsafoedd pleidleisio ers yr etholiadau yn 2003. Prin fu'r dystiolaeth a welsom i awgrymu bod y cynllun a ddefnyddir yng Ngogledd Iwerddon yn peri anawsterau i bobl o ran hygyrchedd.

1.2 Yn 2016, dywedodd Llywodraeth y DU y byddai'n gofyn i gynghorau lleol gynnal cynlluniau peilot ym mis Mai 2018 i brofi ffyrdd gwahanol o adnabod pleidleiswyr mewn gorsafoedd pleidleisio.² Dywedodd y byddai cynlluniau peilot yn helpu i weld beth fyddai'r effaith ar bleidleiswyr a gweinyddwyr etholiadol, a'u helpu i benderfynu sut i lunio cynllun a allai gael ei ddefnyddio ar gyfer etholiadau Senedd y DU ac etholiadau lleol yn Lloegr.

1.3 Dewiswyd pum cyngor lleol i gynnal cynlluniau peilot adnabod pleidleiswyr yn eu hetholiadau ar ddydd Iau 3 Mai 2018:

¹ Eglurwyd ein safbwyntiau gennym yn yr adroddiad hwn: [Comisiwn Etholiadol \(2014\) *Electoral fraud in the UK: Final report and recommendations*](#)

²Eglurodd y Llywodraeth ei safbwyntiau yn yr adroddiad hwn: [Swyddfa'r Cabinet \(2016\) *A Democracy that Works for Everyone: A Clear and Secure Democracy – Government response to Sir Eric Pickles' review of electoral fraud*](#)

- Bromley
- Swindon
- Woking
- Gosport
- Watford

1.4 Mae gan bob cynllun peilot reolau penodol ar gyfer sut y dylent weithio y gwnaeth Llywodraeth y DU a'r Swyddog Canlyniadau lleol gytuno arnynt. Roedd pleidleiswyr mewn rhai ardaloedd yn gorfod dangos prawf adnabod â llun ohonynt arno; mewn ardaloedd eraill, gallai pleidleiswyr ddangos prawf adnabod heb lun. Roedd y Swyddog Canlyniadau ar gyfer pob ardal yn cynnal y prosesau ar gyfer y cynlluniau.

1.5 Gwnaeth Swyddfa'r Cabinet, sy'n rhan o Lywodraeth y DU, oruchwylio'r gwaith o gynnal yr holl gynlluniau peilot ym mis Mai 2018. Dywed y gyfraith fod yn rhaid i ni werthuso pob un o'r cynlluniau yn annibynnol o fewn tri mis i'r etholiadau.³

Yr adroddiad hwn

1.6 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r hyn a ganfuwyd gennym pan edrychom ar ganlyniadau cynlluniau peilot Mai 2018. Mae hefyd yn edrych y tu hwnt i'r cynlluniau peilot hyn ar y goblygiadau i'r dyfodol, a'r hyn y dylai Llywodraeth y DU ei wneud nesaf yn ein barn ni.

1.7 Er mwyn gwneud hyn, rydym wedi edrych ar effaith y cynlluniau peilot ar bleidleiswyr ac ar weinyddu'r etholiadau. Rydym hefyd wedi edrych ar effaith y cynlluniau peilot ar hyder y cyhoedd a diogelwch yr etholiadau.

1.8 Gwnaethom gasglu gwybodaeth o ffynonellau gwahanol er mwyn ein helpu i lunio'r canfyddiadau hyn:

- Arolwg yn gofyn i bobl am eu barn ar y cynlluniau.
- Arolwg o bobl a oedd yn gweithio mewn gorsafoedd pleidleisio.
- Data am y math o brawf adnabod yr oedd pobl yn ei ddangos pan oeddent yn pleidleisio, a nifer y bobl a gafodd eu troi ymaith am nad oedd ganddynt y math cywir o brawf adnabod.
- Gwahodd adborth gan sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau gwahanol o bleidleiswyr.

1.9 Yn ogystal â'r adroddiad cyffredinol hwn, rydym hefyd wedi ysgrifennu gwerthusiadau unigol o bob un o'r cynlluniau peilot penodol, ac rydym wedi eu cyhoeddi ar ein gwefan.⁴ Mae'r adroddiadau hyn wedi edrych ar gwestiynau penodol y mae'n rhaid i ni eu hystyried, yn ôl y gyfraith, sef:

- roedd y nifer a bleidleisiodd yn uwch nag y byddai wedi bod pe na bai'r cynllun wedi cael ei roi ar waith

³ Nodir y rheolau ar gyfer y cynlluniau peilot yn Adran 10 o'r gyfraith hon: [Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000](#)

⁴ [Gallwch ddarllen yr adroddiadau hyn ac edrych ar y wybodaeth fanwl a gasglwyd gennym er mwyn ein helpu i werthuso cynlluniau peilot 2018 ar ein gwefan.](#)

- canfu'r pleidleiswyr fod y gweithdrefnau a ddarparwyd gan y cynllun i'w helpu yn hawdd i'w defnyddio
- arweiniodd y gweithdrefnau a ddarparwyd gan y cynllun at gynnydd mewn troseddau cambersonadu neu droseddau etholiadol eraill neu gynnydd mewn unrhyw achosion o gamymddwyn mewn cysylltiad ag etholiadau
- arweiniodd y gweithdrefnau hynny at unrhyw gynnydd mewn gwariant, neu unrhyw arbedion, gan yr awdurdod

1.10 Rydym hefyd wedi ystyried amcanion Llywodraeth y DU ei hun ar gyfer y cynlluniau peilot adnabod pleidleiswyr:

- Bod mesurau polisi arfaethedig ar gyfer 'prawf adnabod mewn gorsafoedd pleidleisio' yn gymesur â'r amcan polisi o leihau'r cyfle am dwyll etholiadol.
- Bod y mesurau polisi arfaethedig ar gyfer 'prawf adnabod mewn gorsafoedd pleidleisio' yn gwella hyder y cyhoedd yn niogelwch y system etholiadol.⁵

Beth na allwn ei ddweud yn yr adroddiad hwn

1.11 Gallwn werthuso'r cynlluniau hyn yn erbyn y meini prawf statudol ac amcanion y Llywodraeth gan ddefnyddio'r data a'r wybodaeth rydym wedi eu casglu. Fodd bynnag, ni allwn ddod i gasgliadau pendant o'r cynlluniau peilot hyn ynghylch sut y byddai gofyniad o ran prawf adnabod pleidleiswyr yn gweithredu yn y dyfodol ledled Prydain Fawr, nac ychwaith mewn digwyddiadau pleidleisio lle ceir nifer fwy o bobl yn pleidleisio.

1.12 Mae hyn yn rhannol am fod y dystiolaeth sydd ar gael yn dod o bum ardal awdurdod lleol yn unig nad ydynt yn gynrychioliadol o lawer o ardaloedd eraill ym Mhrydain Fawr. Byddai heriau gwahanol mewn ardaloedd â demograffeg gwahanol.

1.13 Mae'r cynlluniau peilot hyn hefyd yn cael eu cynnal mewn etholiadau lleol lle mae nifer y pleidleiswyr yn sylweddol is na digwyddiadau pleidleisio eraill, fel etholiadau cyffredinol Senedd y DU. Bydd llawer o bobl nad ydynt fel arfer yn pleidleisio mewn etholiadau lleol yn pleidleisio mewn etholiad cyffredinol. Mae'r bobl hyn hefyd yn tueddu i ddod o gefndiroedd demograffig gwahanol i'r rhai sydd fel arfer yn pleidleisio mewn etholiadau lleol.

1.14 Nid yw cynlluniau peilot eraill mewn etholiadau lleol yn debygol o ddarparu mwy o dystiolaeth am effaith gofyniad prawf adnabod ar bleidleiswyr a gweinyddiaeth etholiadol mewn etholiadau lle ceir nifer fwy o bobl yn pleidleisio. Ni all Swyddogion Canlyniadau gynnal cynlluniau peilot yn etholiadau Senedd y DU, felly efallai y bydd yn rhaid i Lywodraeth y DU edrych am ffynonellau eraill o dystiolaeth am effaith etholiadau lle mae nifer fwy o bobl yn debygol o bleidleisio. Gallai hyn gynnwys ymchwil ansoddol

⁵ Eglurodd y Llywodraeth y cwestiynau hyn yn y ddogfen hon: [Swyddfa'r Cabinet \(2017\) Electoral Integrity Pilots: Prospectus](#)

gyda phleidleiswyr afreolaidd a'r rhai sydd â llai o ddiddordeb gwleidyddol i brofi ymatebion tebygol i ofyniad am brawf adnabod.

Effaith ar bleidleiswyr

1.15 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd gennym yn awgrymu bod bron pawb oedd am wneud yn gallu pleidleisio yn yr ardaloedd lle cynhaliwyd y cynlluniau peilot:

- Roedd bron naw o bob deg o bobl a bleidleisiodd mewn gorsafoedd pleidleisio yn gwybod bod yn rhaid iddynt fynd â phrawf adnabod gyda hwy i'r orsaf bleidleisio er mwyn pleidleisio.
- Roedd bron pawb a aeth i bleidleisio yn eu gorsaf bleidleisio yn gallu dangos y prawf adnabod cywir.
- Roedd nifer y bobl a oedd am bleidleisio yn eu gorsaf bleidleisio nad oedd ganddynt y prawf adnabod cywir yn fach iawn; daeth llawer ohonynt yn ôl gyda'r prawf adnabod cywir, ond ni ddaeth rhai ohonynt yn ôl.
- Nid oes dystiolaeth bod y gofyniad i bleidleiswyr mewn gorsafoedd pleidleisio ddangos prawf adnabod wedi effeithio'n sylweddol ar nifer y bobl a bleidleisiodd yn yr ardaloedd lle cynhaliwyd y cynlluniau peilot.

1.16 Roedd nifer lai o bobl nad oeddent yn gallu pleidleisio am nad oedd ganddynt y math cywir o brawf adnabod, neu am nad oeddent wedi dod ag ef gyda hwy. Ni fu'n bosibl casglu data demograffig ar y bobl hyn ac felly nid oes gennym unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod hyn wedi effeithio mwy ar ddemograffeg penodol nag eraill. Mae angen gwneud mwy o waith er mwyn sicrhau nad yw gofyniad o ran prawf adnabod yn atal pobl sy'n gymwys ac sydd am bleidleisio mewn etholiadau yn y dyfodol.

Canfyddiadau cyffredinol o'r cynlluniau peilot

Ymwybyddiaeth o'r gofynion adnabod

1.17 Roedd y rhan fwyaf o bobl yn y cynllun peilot yn gwybod am y gofynion adnabod. Canfu ein hymchwil fod bron naw o bob 10 person a bleidleisiodd mewn gorsafoedd pleidleisio wedi dweud eu bod yn ymwybodol ymlaen llaw fod yn rhaid iddynt ddangos prawf adnabod er mwyn pleidleisio yn eu gorsaf bleidleisio.

1.18 Roedd rhai grwpiau o bobl yn llai tebygol o ddweud eu bod yn gwybod am y gofynion adnabod. Roedd pleidleiswyr gorsafoedd pleidleisio yng ngradd gymdeithasol C2DE yn llai tebygol o ddweud eu bod yn gwybod ymlaen llaw (dywedodd 18% nad oeddent yn gwybod am y gofyniad o gymharu â 9% o rai ABC1). Yn y boblogaeth yn gyffredinol, roedd rhai grwpiau yn llai tebygol o ddweud eu bod wedi clywed rhywbeth am y cynllun peilot. Roedd hyn yn cynnwys pobl o dan 35 oed, rhai C2DE, y rhai a ddywedodd eu bod yn llai gweithgar yn wleidyddol yn gyffredinol, a'r rhai a ddywedodd nad oeddent yn pleidleisio yn yr etholiadau.

1.19 Roedd pobl yn Swindon a Watford hefyd yn llai tebygol o ddweud eu bod yn ymwybodol bod angen iddynt ddangos prawf adnabod. Gall hyn fod am eu bod yn credu bod y gofyniad i ddangos cerdyn pleidleisio yn 'brawf adnabod', er na allwn gadarnhau hyn o'r data sydd ar gael.

1.20 Gwnaeth Swyddogion Canlyniadau yn ardaloedd y cynlluniau peilot gynnal ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth y cyhoedd cyn yr etholiadau, a gwnaeth ymwybyddiaeth o'r gofynion adnabod wella rhwng mis Ionawr a mis Mai 2018. Ym mis Ionawr, dywedodd 36% o'r bobl yn ardaloedd y cynlluniau peilot eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth am y gofyniad, ac erbyn mis Mai roedd hyn wedi codi i 55%.

Mathau o brawf adnabod a ddefnyddiwyd gan bleidleiswyr

1.21 Yn Bromley, Gosport a Woking roedd y rhan fwyaf o bleidleiswyr naill ai'n gallu dangos eu pasbort neu eu llun ar drwydded yrru i bleidleisio yn eu gorsaf bleidleisio. Cardiau teithio lleol oedd y trydydd math mwyaf o brawf adnabod a ddangoswyd amlaf.

1.22 Yn Swindon a Watford, dangosodd y rhan fwyaf o bleidleiswyr eu cerdyn pleidleisio er mwyn pleidleisio yn eu gorsaf bleidleisio. Dangosodd cyfran fach o bobl eu llun ar drwydded yrru, pasbort, cerdyn debyd neu gredyd yn lle eu cerdyn pleidleisio.

Tabl 1: Y mathau o brawf adnabod a ddangoswyd amlaf ym mhob ardal beilot⁶

	Y math o brawf adnabod a ddangoswyd amlaf	Yr ail fath o brawf adnabod a ddangoswyd amlaf	Y trydydd math o brawf adnabod a ddangoswyd amlaf
Bromley	Llun ar drwydded yrru (54%)	Pasbort (24%)	Cerdyn teithio am ddim (Freedom Pass) (15%)
Gosport	Llun ar drwydded yrru (55%)	Pasbort (21%)	Cerdyn teithio rhatach (17%)
Swindon	Cerdyn pleidleisio (95%)	Llun ar drwydded yrru (4%)	Pasbort (1%)
Watford	Cerdyn pleidleisio (87%)	Llun ar drwydded yrru (8%)	Cerdyn debyd (3%)
Woking	Llun ar drwydded yrru (60%)	Pasbort (25%)	Cerdyn Teithio Pobl Hŷn Surrey (12%)

⁶ Mae Atodiad A yn nodi'r rhestr lawn o ofynion adnabod ar gyfer pob cynllun peilot, [ac mae'r setiau data llawn ar y prawf adnabod a ddefnyddiwyd ar lefel ward etholiadol ar gael ar ein gwefan.](#)

1.23 Prin iawn oedd y bobl a wnaeth gais i ddefnyddio'r opsiynau amgen a ddarparwyd i'r rhai nad oedd ganddynt y prawf adnabod gofynnol. Ni wnaeth neb yn Bromley na Gosport gais am Dystysgrif Adnabod na Llythyr Adnabod Etholiadol. Mae adborth gan y Swyddogion Canlyniadau yn y ddwy ardal hyn yn awgrymu bod y rhan fwyaf o bobl a gysylltodd â nhw i ofyn am yr opsiwn amgen wedi canfod bod ganddynt un o'r ffurfiau derbyniol ar brawf adnabod mewn gwirionedd.

1.24 Yn Woking, gwnaeth 64 o bobl gais am Gerdyn Etholwr Lleol cyn y diwrnod pleidleisio a dangosodd 43 o bleidleiswyr eu cerdyn fel prawf adnabod yn eu gorsaf bleidleisio.

1.25 Roedd pleidleiswyr yn Swindon a Watford yn gallu dangos eu cerdyn pleidleisio fel rhan o'r prawf adnabod gofynnol, ac roeddent yn gallu gwneud cais am gerdyn pleidleisio newydd cyn y diwrnod pleidleisio. Rhoddodd Swyddogion Canlyniadau 66 o gardiau pleidleisio newydd i bleidleiswyr yn Swindon a 3 i bleidleiswyr yn Watford. Gallai pleidleiswyr yn Swindon hefyd ofyn i etholwr arall yn yr un orsaf bleidleisio 'gadarnhau' pwy oeddent, a defnyddiodd 107 o bleidleiswyr yr opsiwn hwn.

1.26 Er bod pob un o'r cynlluniau peilot yn caniatáu i bleidleiswyr ddangos eu prawf adnabod yn breifat (er enghraifft, am eu bod wedi eu cofrestru i bleidleisio'n ddienw neu os oeddent yn gorchuddio eu hwyneb am resymau crefyddol fel arfer), nid ydym yn credu bod unrhyw un wedi defnyddio'r cyfleuster hwn. Felly, ni allwn ddod i unrhyw gasgliadau ynglŷn â sut y byddai'r broses hon yn gweithio yn ymarferol.

Effaith ar y nifer a bleidleisiodd ac a gymerodd ran

1.27 Er bod bron pawb yn ardaloedd y cynlluniau peilot a aeth i'w gorsaf bleidleisio i bleidleisio wedi gallu dangos y prawf adnabod gofynnol, nid oedd gan nifer fach ohonynt y prawf adnabod cywir ac ni roddwyd papur pleidleisio iddynt. Gwnaeth llawer o'r bobl hyn ddychwelyd yn ddiweddarach gyda'r prawf adnabod cywir, ond ni ddaeth rhai ohonynt yn ôl.

Tabl 2: Pobl na ddychwelodd i'w gorsaf bleidleisio i bleidleisio

Bromley	Gosport	Swindon	Watford	Woking
569 heb prawf adnabod cywir	120 heb prawf adnabod cywir	64 heb prawf adnabod cywir	194 heb prawf adnabod cywir	89 heb prawf adnabod cywir
154 heb ddychwelyd	54 heb ddychwelyd	25 heb ddychwelyd	42-66 heb ddychwelyd	51 heb ddychwelyd
0.2% o'r holl bleidleiswyr	0.4% o'r holl bleidleiswyr	0.06% o'r holl bleidleiswyr	0.2% o'r holl bleidleiswyr	0.3% o'r holl bleidleiswyr

mewn gorsafoedd pleidleisio na wnaeth ddychwelyd	mewn gorsafoedd pleidleisio na wnaeth ddychwelyd	mewn gorsafoedd pleidleisio na wnaeth ddychwelyd	mewn gorsafoedd pleidleisio na wnaeth ddychwelyd	mewn gorsafoedd pleidleisio na wnaeth ddychwelyd
--	--	--	--	--

1.28 Prin yw'r dystiolaeth fod y gofynion o ran adnabod pleidleiswyr wedi cael effaith uniongyrchol ar y nifer a bleidleisiodd yn ardaloedd y cynlluniau peilot ym mis Mai 2018. Mewn tair ardal nid oedd y nifer a bleidleisiodd ar lefel awdurdod lleol yn fwy nag 1 pwynt canran yn is na'r etholiadau cymaradwy diweddaraf. Roedd y nifer a bleidleisiodd yn y ddwy ardal arall yn uwch na hynny, gan gynnwys yn Swindon lle roedd y nifer a bleidleisiodd 5 pwynt canran yn uwch. Yn gyffredinol, roedd y nifer a bleidleisiodd ledled Lloegr yn 2018 yr un peth â'r set gymaradwy ddiwethaf o etholiadau yn 2014, sef 36%.

1.29 Gwelwyd rhai enghreifftiau o fwy o newidiadau yn y nifer a bleidleisiodd ar lefel ward unigol yn ardaloedd y cynlluniau peilot. Roedd y rhain yn amrywio o gynnydd o 12 pwynt canran mewn un ward yn Swindon i ostyngiad o 8 pwynt canran mewn un ward yn Bromley.

1.30 Ni all y data ar y nifer a bleidleisiodd na'r data ar y nifer a gymerodd ran ddweud llawer wrthym am y bobl a benderfynodd efallai beidio â mynd i'w gorsaf bleidleisio o gwbl oherwydd y gofyniad i ddangos prawf adnabod. Fodd bynnag, canfu ein hymchwil gyda phobl yn ardaloedd y cynlluniau peilot, o blith y rhai na bleidleisiodd ym mis Mai 2018, fod 2% o'r rheini wedi dweud eu bod heb bleidleisio am nad oedd ganddynt y prawf adnabod cywir. Dywedodd llawer mwy o bobl nad oeddent wedi pleidleisio am eu bod yn rhy brysur (27%), nad oeddent yn gwybod dros bwy i bleidleisio (13%), eu bod ar eu gwyliau (12%) neu nad oedd diddordeb ganddynt (10%).

1.31 Dywedodd y rhan fwyaf o bobl yn yr ardaloedd peilot (79%) nad oedd y gofyniad i ddangos prawf adnabod wedi gwneud unrhyw wahaniaeth i p'un a oeddent am bleidleisio ai peidio ym mis Mai 2018, ac yn gyffredinol dywedodd 3% o bobl fod hyn wedi eu gwneud yn llai tebygol o bleidleisio. Fodd bynnag, cadarnhaodd ein hymchwil fod y rhai na wnaethant bleidleisio yn fwy tebygol na'r rhai a wnaeth bleidleisio o ddweud bod hyn wedi eu gwneud yn llai tebygol o bleidleisio: Dywedodd 5% o'r rhai na wnaethant bleidleisio fod hyn wedi eu gwneud yn llai tebygol o bleidleisio, a dywedodd 2% na fyddent wedi gallu pleidleisio am nad oedd ganddynt unrhyw brawf adnabod.

1.32 Cyn cynlluniau peilot Mai 2018, cododd sefydliadau hygyrchedd bryderon y byddai rhai grwpiau o bobl yn ei chael hi'n anoddach pleidleisio am na fyddent yn gallu cael gafaél ar y mathau cywir o brawf adnabod yn hawdd. Roedd hyn yn cynnwys pryderon am bobl anabl a phobl o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, sydd hefyd yn llai tebygol o gymryd rhan mewn etholiadau yn gyffredinol.

1.33 Yn gyffredinol, ni chanfuwyd unrhyw batrwm clir o ostyngiad yn y nifer a bleidleisiodd yn seiliedig ar y proffiliau demograffig gwahanol o wardiau penodol yn ardaloedd cynlluniau peilot Mai 2018. Mae maint cymharol fach

cynlluniau peilot Mai 2018, y nifer a bleidleisiodd a'r amrywiad demograffig cyfyngedig yn wardiau'r cynlluniau peilot yn golygu ei bod yn anodd nodi enghreifftiau o effaith negyddol ar gyfer grwpiau penodol o bobl mewn ffordd systematig. Mae cyfyngiadau'r dull arolygu ar sail sampl hefyd yn golygu na chawsom ddigon o ymatebion gan grwpiau penodol o bobl i allu cofnodi profiadau na safbwyntiau ar draws y grwpiau hyn.

1.34 Yn Watford, gwelsom gydberthynas rhwng cyfran poblogaeth ward sy'n Asiaidd/Asiaidd Prydeinig a nifer yr etholwyr a wnaeth ddod i'r orsaf bleidleisio i ddechrau heb brawf adnabod ac na ddychwelodd.⁷ Mae angen i ni fod yn ofalus wrth ddod i gasgliadau ar sail y dadansoddiad hwn gan ei fod yn seiliedig ar nifer fach o bwyntiau data (dim ond 12 ward mewn un ardal awdurdod lleol). Fodd bynnag, mae hyn yn dangos y byddai'n ddefnyddiol cael mwy o gynlluniau peilot gyda phoblogaethau mwy amrywiol er mwyn ystyried hyn ymhellach.

Y tu hwnt i'r cynlluniau peilot: goblygiadau i bleidleiswyr mewn etholiadau yn y dyfodol

1.35 Er i ni ganfod bod y rhan fwyaf o bobl a oedd am wneud hynny wedi gallu pleidleisio yn ardaloedd y cynlluniau peilot ym mis Mai 2018, rydym hefyd wedi gweld peth tystiolaeth y gallai grwpiau penodol o bleidleiswyr ei chael hi'n anoddach dangos prawf adnabod mewn etholiadau yn y dyfodol.

1.36 Canfu ein hymchwil gyda phobl o bob etholiad a gynhaliwyd ym mis Mai 2018 fod y rhan fwyaf o bobl wedi dweud (88%) y byddent yn ei chael hi'n hawdd neu'n hawdd iawn dangos prawf adnabod pe bai'n rhaid iddynt mewn etholiadau yn y dyfodol. Fodd bynnag, canfuwyd bod pobl iau 34 oed ac iau ychydig yn llai tebygol (83%) o ddweud y byddent yn ei chael hi'n hawdd. Nid oedd unrhyw wahaniaethau amlwg mewn ymatebion yn seiliedig ar ffactorau demograffig eraill, gan gynnwys gradd gymdeithasol, anabledd neu ethnigrwydd.

1.37 Gwyddom fod mwy o bobl yn pleidleisio mewn mathau eraill o etholiadau: mae rhai pobl nad ydynt fel arfer yn pleidleisio mewn etholiadau lleol yn aml yn pleidleisio yn etholiadau Senedd y DU, er enghraifft. Mae hyn yn golygu, mewn mathau eraill o etholiadau yn y dyfodol, y gallai mwy o bobl sydd am bleidleisio ei chael hi'n anodd dangos prawf adnabod.

Goblygiadau o ran hygyrchedd a chydaddoldeb

1.38 Cododd sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau gwahanol o bobl bryderon gyda ni ynghylch p'un a fyddent yn gallu cael gafael yn hawdd ar y prawf adnabod cywir pe bai'r gofyniad hwn yn cael ei ddefnyddio mewn mwy o etholiadau yn y dyfodol.⁸ Er enghraifft, cododd Mencap, RNIB a Stonewall y pryderon canlynol:

⁷ [Gallwch ddarllen ein hadroddiad gwerthuso ar gynllun peilot Watford ar ein gwefan yma](#)

⁸ [Gallwch ddarllen yr holl safbwyntiau a anfonwyd atom ar ein gwefan](#)

"Yn aml nid oes gan bobl ag anabledd dysgu brawf adnabod megis pasbort am na allant deithio tramor neu am na allant ei fforddio. Ni fydd gan bron yr un ohonynt drwydded yrru ac mewn rhai achosion ni fydd ganddynt hyd yn oed fynediad i filiau cyfleustod na mathau eraill o brawf adnabod."

Cyflwyniad Mencap

"Mae'r prinder trwyddedau gyrru ymhlith pobl ddall a rhannol ddall yn golygu bod ganddynt lai o opsiynau o ran yr hyn y gallent ei ddarparu yn yr orsaf bleidleisio."

Cyflwyniad RNIB

"Gall pobl draws ac anneuaid fod wedi bod yn arbennig o agored i'r gofynion prawf adnabod hyn gan na fydd y llun ar eu prawf adnabod o bosibl yn adlewyrchu eu mynegiant rhywedd na'u hunaniaeth."

Cyflwyniad Stonewall

1.39 Cododd sawl sefydliad hefyd bryderon gyda ni ynghylch yr ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth a gynhaliwyd gan Swyddogion Canlyniadau yn ardaloedd y cynlluniau peilot. Roeddent yn pryderu ynghylch p'un a oedd yr ymgyrchoedd yn gwneud digon i dargedu pobl o grwpiau a oedd yn llai tebygol o gael y prawf adnabod cywir. Er enghraifft, roedd Mencap ac RNIB yn teimlo nad oedd y gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth ymhlith y bobl roeddent yn eu cynrychioli yn dechrau'n ddigon cynnar yn ardaloedd cynlluniau peilot Mai 2018.

1.40 Mae'r dystiolaeth ehangach hon yn awgrymu bod angen gwneud mwy o waith er mwyn sicrhau nad yw gofyniad o ran prawf adnabod yn atal pobl sy'n gymwys ac sydd am bleidleisio mewn etholiadau yn y dyfodol. Mae angen mwy o waith ymchwil a dadansoddi i nodi pa fathau o brawf adnabod fydd hawsaf i bobl eu dangos, a sut y gall y rhai nad oes ganddynt brawf adnabod ar hyn o bryd gael gafael arno.

1.41 Mae hyn yn arbennig o bwysig i bobl a all ei chael hi'n anoddach dangos y mathau mwyaf cyffredin o brawf adnabod ar ffurf llun megis pasbort, llun ar drwydded yrru neu gerdyn teithio. Yn y gorffennol rydym wedi argymhell y dylai unrhyw gynllun adnabod pleidleisiwr ffotograffig gynnwys cerdyn etholwr ffotograffig am ddim i bobl nad oes ganddynt ffurf dderbyniol arall ar brawf adnabod.

1.42 Mae angen gwneud mwy o waith i ddod o hyd i ffyrdd eraill o ddweud wrth bobl am unrhyw ofyniad o ran prawf adnabod. Unwaith eto, dylai hyn ganolbwyntio ar y ffordd orau o gyfleu unrhyw ofyniad newydd i bobl sy'n llai tebygol o bleidleisio'n aml a'r rhai a all ei chael hi'n anoddach dangos un o'r mathau mwyaf cyffredin o brawf adnabod.

Effaith ar y modd y gweinyddir etholiadau

1.43 Gwnaeth y Swyddogion Canlyniadau a'u staff a oedd yn gyfrifol am etholiadau mis Mai 2018 gynnal y cynlluniau peilot yn llwyddiannus ym mhob un o'r pum ardal beilot:

- Dywedodd staff gorsafoedd pleidleisio wrthym na chawsant unrhyw drafferth i wirio prawf adnabod pobl.
- Roeddent yn hyderus y gallent wneud hyn eto mewn etholiad yn y dyfodol.
- Ym mhob ardal, roedd angen staff a hyfforddiant ychwanegol ar gyfer y cynllun peilot.

1.44 Cafodd y cynlluniau hyn eu cynnal mewn pleidleisiau lle roedd nifer y bobl a bleidleisiodd yn fach, gyda llai o bobl yn pleidleisio ac yn dangos prawf adnabod mewn gorsafoedd pleidleisio. Fel y dangoswyd isod, ceir gwersi clir y gellir eu dysgu ar gyfer digwyddiadau pleidleisio yn y dyfodol lle mae'r nifer sy'n pleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio yn uwch.

1.45 Mae goblygiadau penodol i weinyddu'r digwyddiad pleidleisio wrth gyflawni'r gofyniad o ran prawf adnabod a nodir y rhain yn fanylach yn ein hadroddiadau unigol ar bob cynllun peilot. Rydym wedi ystyried yr effaith weinyddol ar draws pedair agwedd ar gyflawni'r digwyddiadau pleidleisio isod.

Canfyddiadau cyffredinol o'r cynlluniau peilot

Staffio a hyfforddiant

1.46 Gwnaeth pob ardal, heblaw Watford, gynyddu nifer y staff er mwyn cyflawni'r cynllun peilot. Ymdriniwyd â hyn mewn ffyrdd gwahanol, yn amrywio o gyflogi deg arolygwr gorsafoedd pleidleisio ychwanegol yn Swindon i ddefnyddio traean yn fwy o staff gorsafoedd pleidleisio yn Bromley. Yn amlwg, roedd costau ychwanegol hefyd yn gysylltiedig â mwy o staff. Er enghraifft, ar draws y cynlluniau peilot gwnaeth y costau staff a hyfforddiant ychwanegol amrywio o ychydig iawn i draean o'r costau arferol mewn etholiadau lleol.

1.47 Fodd bynnag, mewn adborth ar ôl y diwrnod pleidleisio dywedodd cynrychiolwyr yr ardaloedd peilot wrthym na fyddai angen y cynnydd hwn mewn staff i weinyddu prawf adnabod pleidleiswyr mewn etholiadau lleol yn y dyfodol. Mae hyn oherwydd na fyddai angen i elfennau peilot ychwanegol, megis casglu data ar ddiwrnod pleidleisio (sy'n ofynnol i lywio'r gwerthusiad), gael eu cynnal. Nid oedd rhai ardaloedd ychwaith yn credu y byddai angen staff ychwanegol arnynt ar gyfer pob diwrnod pleidleisio, hyd yn oed mewn digwyddiad pleidleisio lle byddai nifer fawr o bobl yn pleidleisio megis etholiad cyffredinol Senedd y DU.

1.48 Roedd angen mwy o sesiynau hyfforddi a/neu sesiynau hirach i gefnogi staff wrth gyflawni'r cynllun peilot. Fodd bynnag, dangosodd adborth gan weinyddwyr etholiadol yn yr ardaloedd peilot, er y byddai angen cynllunio a pharatoi ar gyfer yr hyfforddiant hwn, nad oedd yn peri her sylweddol iddynt wrth gynnal y cynllun peilot. Gwyddom hefyd fod yr hyfforddiant a gyflwynwyd yn dda. Canfu ein harolwg o staff gorsafoedd pleidleisio fod 94%, ar gyfartaledd, yn credu bod yr hyfforddiant a gawsant yn dda neu'n rhagorol. Dywedodd yn agos at 100% o staff pleidleisio wrthym hefyd eu bod yn hyderus ynghylch y broses yr oedd yn rhaid iddynt ei dilyn er mwyn gwirio prawf adnabod pleidleiswyr.

Prawf adnabod lleol

1.49 Cynigiodd cynlluniau peilot 2018 brawf cyfyngedig o'r broses a'r gost o ddsbarthu prawf adnabod lleol i etholwyr. Cynigiodd tri chynllun peilot (Bromley, Gosport a Woking) ffurf ar brawf adnabod ond dim ond Woking oedd wedi gorfod dosbarthu rhai. Mae'n debygol y digwyddodd hyn am fod gan Woking ofyniad mwy caeth o ran prawf adnabod lle roedd etholwyr ychydig yn fwy tebygol o fod angen defnyddio opsiwn lleol.

1.50 Dosbarthodd Woking 64 o gardiau etholwyr lleol ac mae eu hadborth yn nodi ei bod wedi bod yn bosibl iddynt gyflawni hyn. Fodd bynnag, aeth i rai costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chynhyrchu a dosbarthu'r cardiau (lle roedd angen). Cododd Gosport bryder yn ei adborth ynghylch ei allu i ddefnyddio'r llwybr adnabod lleol os oedd wedi cael ei ddefnyddio'n sylweddol. Roedd hyn yn bennaf oherwydd, fel awdurdod lleol bach, ni fyddai ganddo lawer o hyblygrwydd o ran defnyddio adnoddau timau eraill.

Effaith TG

1.51 Defnyddiodd Swindon a Watford TG yn eu gorsafoedd pleidleisio i sganio codau QR ar gardiau pleidleisio etholwyr. Yn y ddau gynllun peilot gweithiodd y systemau'n dda ac ni chafwyd unrhyw broblemau amlwg ar y diwrnod pleidleisio a oedd yn ymwneud â'r TG. Hefyd, rhoddodd y systemau wybodaeth fyw, ddefnyddiol i'r Swyddogion Canlyniadau am y nifer a bleidleisiodd mewn gorsafoedd pleidleisio, sef gwybodaeth na fyddai ganddynt fel arfer.

1.52 Fodd bynnag, roedd cynllunio a sefydlu'r systemau TG hyn yn galw am gryn ymrwymiad ar ran y timau gweinyddu etholiadol, y cyflenwyr meddalwedd a Swyddfa'r Cabinet o ran amser ac adnoddau. Mae'r ymrwymiad hwn o ran amser ac adnoddau yn deillio'n bennaf o lefel y diogelwch sydd ei hangen i gynnal y systemau hyn, sy'n cynnwys data personol sylweddol, yn ogystal â lefel y sicrwydd a lefel y cydnerthedd sydd eu hangen er mwyn sicrhau na fydd unrhyw broblemau'n codi ar y diwrnod pleidleisio.

1.53 Er bod llawer o'r gwaith yn gysylltiedig â datblygu'r feddalwedd, ac na fyddai ei angen yn y dyfodol o reidrwydd, byddai dal angen lefel sylweddol o ymrwymiad gan gyflenwyr meddalwedd i gefnogi unrhyw safleoedd awdurdodau lleol a oedd yn defnyddio'r systemau hyn mewn digwyddiadau pleidleisio yn y dyfodol. Byddai costau parhaus hefyd y byddai angen i


awdurdodau lleol eu talu er mwyn defnyddio'r systemau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys trwyddedu meddalwedd, caledwedd (llechi/sganwyr) a hyfforddiant ychwanegol i staff.

1.54 O gofio'r gost a'r amser sydd eu hangen i gefnogi'r defnydd o'r systemau hyn, mae angen ystyried rhinweddau cynnwys unrhyw gynlluniau peilot a alluogir gan TG mewn cynlluniau yn y dyfodol ochr yn ochr â'r gallu i gyflwyno'r systemau hyn ar raddfa fwy ledled Prydain Fawr. Nid yw'n glir ychwaith o'r cynlluniau peilot hyn a oes gwir angen TG ychwanegol mewn gorsafoedd pleidleisio (er enghraifft i sganio codau bar neu godau QR) er mwyn cefnogi'r defnydd o'r cerdyn pleidleisio fel ffurf ar brawf adnabod.

Diwrnod pleidleisio

1.55 Mae adborth gan Swyddogion Canlyniadau a'u staff yn nodi na wnaeth y broses o gyflwyno'r gofyniad o ran prawf adnabod ar 3 Mai greu unrhyw heriau mawr. Mewn ymateb i'n harolwg, dywedodd 77% o staff gorsafoedd pleidleisio eu bod yn fodlon iawn ar y ffordd yr oedd y diwrnod pleidleisio wedi mynd. Mae hyn yn cyd-fynd â'r adborth a gawsom gan Swyddogion Canlyniadau a ddywedodd na chafwyd fawr ddim problemau ar y diwrnod pleidleisio ac mae dim ond ychydig o ymatebion a gawsant gan y cyhoedd neu nad oeddent wedi cael unrhyw ymatebion negyddol gan y cyhoedd. Mae'r canfyddiadau hyn hefyd yn cyd-fynd â'r sylwadau a wnaed gan staff y Comisiwn Etholiadol ar y diwrnod pleidleisio ar draws y pum ardal. Prin oedd y problemau a welwyd ac ar y cyfan roedd y prosesau'n gweithio'n dda yn ôl pob golwg.

Siart 1: Gan feddwl yn ôl i'ch profiadau ni chafodd y gwaith o ofyn i bleidleiswyr brofi pwy oeddent fawr ddim effaith neu ddim effaith o gwbl ar ein gwaith ar y diwrnod pleidleisio.



1.56 Cytunodd cyfran uchel o staff (69%) hefyd â'r datganiad na chafodd y gwaith o ofyn i bleidleiswyr brofi pwy oeddent fawr ddim effaith neu ddim effaith o gwbl ar eu gwaith ar y diwrnod pleidleisio. Mae hyn hefyd yn awgrymu nad oedd yr amrywiad mewn gofynion adnabod yn gwneud y dasg mewn gorsafoedd pleidleisio yn amlwg yn haws nac yn anoddach. Roedd staff yn Swindon a Watford (gan ddefnyddio dull sganio cardiau pleidleisio) yn fwy tebygol o gytuno nad oedd fawr ddim effaith ond roedd fawr ddim gwahaniaeth ar draws yr ardaloedd eraill. Ymddengys nad yw'r gwahaniaeth yn nifer y mathau o brawf adnabod derbynol a gwahanol rhwng Bromley/Gosport a Woking, er enghraifft, wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i staff.

1.57 Gwnaethom hefyd ofyn i staff gorsafoedd pleidleisio a fyddent yn teimlo'n hyderus ynghylch ailddefnyddio'r gofyniad i ddangos prawf adnabod mewn digwyddiad pleidleisio yn y dyfodol a dywedodd 97% y byddent yn hyderus i wneud hynny.

Y tu hwnt i'r cynlluniau peilot: yr effaith ar weinyddu mewn etholiadau yn y dyfodol

1.58 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn dangos bod y digwyddiadau pleidleisio a gynhaliwyd yn yr ardaloedd peilot ar 3 Mai wedi eu cynnal yn dda a bod y

Swyddogion Canlyniadau a'u staff wedi ymateb i'r heriau gweinyddol a gododd yn sgîl y gofyniad o ran prawf adnabod. Gan edrych y tu hwnt i'r cynlluniau peilot, gallai heriau gweinyddol gwahanol godi na chawsant eu profi gan y cynlluniau peilot hyn, gan gynnwys yr angen i brosesu a dosbarthu nifer fawr o gardiau/llythyrau adnabod etholiadol lleol.

1.59 Gallai'r effaith a'r risgiau i bobl sy'n cynnal yr etholiadau fod yn wahanol mewn etholiadau lle mae nifer fwy o bobl yn pleidleisio ac yn dangos prawf adnabod mewn gorsafoedd pleidleisio, megis etholiad cyffredinol.

1.60 Roedd y nifer a bleidleisiodd yn etholiadau mis Mai 2018, fel sy'n wir fel arfer mewn etholiadau llywodraeth leol, yn gymharol isel, sy'n golygu bod y cynlluniau peilot wedi cael eu cynnal ar raddfa wahanol nag y byddai'n wir efallai ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU. Yn yr etholiadau lleol hyn pleidleisiodd rhwng 20-30% o'r etholwyr mewn gorsaf bleidleisio ond mewn etholiad ar gyfer senedd y DU mae dros 50% yn aml yn pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio.

1.61 Er enghraifft, dywedodd staff mewn rhai gorsafoedd pleidleisio yn Watford y gallai sganio'r cerdyn pleidleisio achosi oedi a chiwiau a allai fod yn hirach gyda mwy o bobl yn pleidleisio. Mewn ardaloedd fel Woking, lle roedd dewis mwy cyfyngedig o brawf adnabod, efallai y bydd angen prosesu a dosbarthu mwy o gardiau etholwyr lleol gan roi pwysau ar dimau etholiadau awdurdodau lleol.

1.62 Ni wnaed unrhyw geisiadau yn Bromley ar gyfer y dystysgrif adnabod nac yn Gosport ar gyfer y llythyr adnabod etholiadol, sy'n golygu na phrofodd y cynllun peilot yr adnoddau sy'n ofynnol i brosesu ceisiadau a dosbarthu dystysgrifau neu lythyrau.

1.63 Dywedodd y Swyddogion Canlyniadau a'u staff yn Bromley a Gosport wrthym, pe bai'r rhestr o fathau derbyniol o brawf adnabod yn cael ei lleihau y byddent yn disgwyl i nifer y ceisiadau am dystysgrifau a llythyrau gynyddu. Roedd ganddynt rai pryderon ynghylch y pwysau y gallai hyn ei roi ar dîm etholiadau a oedd eisoes o dan gryn bwysau. Roedd hyn yn arbennig o wir ar gyfer Gosport sydd, fel awdurdod llai, â llai o hyblygrwydd o ran maint y tîm etholiadau a gallu'r tîm i ddefnyddio adnoddau o adran arall o'r cyngor.

1.64 Un mater penodol yr oedd cynlluniau peilot 2018 yn barod i'w brofi oedd sut i sicrhau preifatrwydd i bleidleiswyr sy'n dangos prawf adnabod ar ffurf llun ond sydd angen, er enghraifft tynnu sgarff pen er mwyn i staff gorsaf bleidleisio gadarnhau pwy ydynt.

1.65 Fodd bynnag, nid oes gan sawl un o'r ardaloedd peilot boblogaethau mawr o bobl Asiaidd Prydeinig. Yn Woking, lle mae poblogaeth fawr o bobl Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig, ni fu'n rhaid i neb gadarnhau pwy oeddent yn breifat. Yn Watford, lle mae gan rai wardiau boblogaeth fawr o bobl Asiaidd Prydeinig, mae argaeledd cardiau pleidleisio fel rhan o'r gofyniad o ran prawf adnabod yn golygu bod pobl efallai wedi bod yn llai tebygol o fod angen defnyddio'r cyfleuster hwn. Gallai sicrhau bod gan bleidleiswyr y preifatrwydd

sydd ei angen arnynt fod yn her weinyddol fwy o lawer mewn rhai ardaloedd a dylai hynny fod yn ystyriaeth ar gyfer profion yn y dyfodol.

Effaith ar hyder y cyhoedd

1.66 Ceir rhywfaint o dystiolaeth sy'n awgrymu bod ei gwneud yn ofynnol i bleidleiswyr ddangos prawf adnabod wedi cael effaith gadarnhaol ar hyder y cyhoedd yn etholiadau mis Mai 2018:

- Roedd pobl mewn ardaloedd lle cynhaliwyd y cynlluniau peilot yn llai tebygol o feddwl bod twyll etholiadol wedi digwydd yn nigwyddiadau pleidleisio mis Mai na phobl mewn ardaloedd eraill lle cynhaliwyd etholiadau hefyd ym mis Mai 2018.
- Ar draws yr ardaloedd peilot yn gyffredinol roedd pobl yn fwy tebygol o ddweud nad oedd twyll etholiadol yn broblem yn eu barn nhw o gymharu â mis Ionawr 2018.
- Roedd pobl a bleidleisiodd mewn gorsafoedd pleidleisio yn ardaloedd y cynlluniau peilot ac felly a brofodd y broses o ddangos prawf adnabod, yn fwy hyderus ynghylch diogelwch y system bleidleisio na'r rhai na wnaethant bleidleisio yn yr ardaloedd hynny.

1.67 Fodd bynnag, nid yw'r darlun hwn yn gyson o fewn yr ardaloedd peilot unigol ac mae dystiolaeth bod amgylchiadau lleol ehangach hefyd yn cael effaith.


Canfyddiadau cyffredinol o'r cynlluniau peilot

Canfyddiadau twyll etholiadol

1.68 Roedd pobl yn ardaloedd y cynlluniau peilot yn llai tebygol o lawer na phobl mewn ardaloedd eraill ag etholiadau ym mis Mai 2018 o ddweud bod twyll wedi digwydd yn yr etholiadau.

Siart 2: Faint o dwyll neu gamddefnydd etholiadol, os o gwbl, a ddigwyddodd yn ystod yr etholiadau ar 3 Mai yn eich barn chi?⁹

Faint o dwyll neu gamddefnydd etholiadol, os o gwbl, a ddigwyddodd yn yr etholiadau ar 3 Mai yn eich barn chi?



1.69 Dangosodd ein hymchwil hefyd, yn ardaloedd y cynlluniau peilot, gynydd amlwg yng nghyfran yr ymatebwyr a ddywedodd nad oedd twyll etholiadol yn broblem rhwng mis Ionawr a mis Mai 2018 (24% o gymharu â 42%). Ar yr un pryd, roedd llai o bobl yn credu ei bod yn broblem ddifrifol (19% o gymharu â 9%).

1.70 Ni welwyd y newid sylweddol hwn mewn barn rhwng y cyfnod cyn y diwrnod pleidleisio a'r cyfnod wedi hynny mewn ardaloedd eraill ag etholiadau ym mis Mai 2018. Yn yr ardaloedd hyn arhosodd nifer y bobl a oedd yn credu nad oedd twyll etholiadol yn broblem yn gymharol gyson rhwng mis Ionawr a mis Mai (37% o gymharu â 33%). Roedd hyn hefyd yn wir i bobl a oedd yn credu bod twyll etholiadol yn broblem (24% o gymharu â 29%).

1.71 Roedd y graddau yr oedd barn pobl am dwyll etholiadol yn newid rhwng y cyfnod cyn y diwrnod pleidleisio a'r cyfnod wedi hynny hefyd yn amrywio yn ôl ardaloedd peilot unigol. Roedd pobl yn Bromley a Watford yn llawer mwy tebygol o ddweud nad oedd twyll etholiadol yn broblem ar ôl y diwrnod pleidleisio na chyn hynny (wedi cynyddu o 21% i 57% yn Bromley ac o 34% i 57% yn Watford). Yn y tair ardal arall dim ond cynnydd bach a welwyd yn y gyfran a ddywedodd nad oedd twyll etholiadol yn broblem.

1.72 Ceir rhywfaint o dystiolaeth sy'n awgrymu y gall amgylchiadau lleol effeithio ar y newidiadau y gallwn eu gweld yn yr arolygon hyn. Er enghraifft, yn ein harolwg ym mis Ionawr, o blith y pum ardal peilot, roedd pobl a oedd yn

⁹ GfK Social and Strategic Research

byw yn Woking yn llawer mwy tebygol o ddweud eu bod yn credu bod twyll etholiadol yn broblem nag yn yr ardaloedd eraill. Gallai hyn adlewyrchu achosion proffil uchel cymharol ddiweddar o dwyll etholiadol yn Woking.

Canfyddiadau bod pleidleisio mewn gorsafodd pleidleisio yn ddiogel rhag twyll a chamddefnydd

1.73 Ni newidiodd cyfran y bobl yn ardaloedd y cynlluniau peilot a ddywedodd fod pleidleisio mewn gorsafodd pleidleisio yn ddiogel rhag twyll a chamddefnydd yn sylweddol rhwng mis Ionawr a mis Mai 2018 (90% ac 86%).¹⁰ Ar draws yr ardaloedd peilot yn gyffredinol, gwnaeth cryfder yr hyder gynyddu rhwng mis Ionawr a mis Mai: cynyddodd cyfran y bobl a ddywedodd ei fod yn ddiogel iawn o 43% i 57%.

1.74 Nid oedd unrhyw dystiolaeth o newid tebyg yn yr ardaloedd eraill ag etholiadau ym mis Mai 2018, sy'n awgrymu bod y cynlluniau peilot wedi cael rhywfaint o effaith. Fodd bynnag, mae'n werth nodi na welsom y cynnydd hwn yn Watford ychwaith, lle syrthiodd y gyfran a ddywedodd fod pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio yn ddiogel iawn rhag twyll a chamddefnydd rhwng mis Ionawr a mis Mai 2018.

1.75 Mae canlyniadau ein harolwg hefyd yn dangos bod pobl a bleidleisiodd yn yr ardaloedd peilot, ac felly a ddangosodd brawf adnabod, yn fwy tebygol o ddweud bod pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio yn ddiogel iawn rhag twyll a chamddefnydd na'r rhai na bleidleisiodd (64% o gymharu â 43%).


Effaith gyffredinol gofyniad o ran prawf adnabod

1.76 Mae dystiolaeth anghyson o gynlluniau peilot mis Mai 2018 ynghylch p'un a fyddai gofyniad i ddangos prawf adnabod mewn gorsafodd pleidleisio ym Mhrydain Fawr yn gwella hyder yn niogelwch y system bleidleisio yn gyffredinol.

1.77 Cafwyd rhai gwahaniaethau sylweddol rhwng ardaloedd y cynlluniau peilot. Dywedodd mwyafrif o bobl yn Bromley (63%) a Gosport (57%) y byddai gofyniad o ran prawf adnabod yn rhoi mwy o hyder iddynt yn niogelwch y system bleidleisio. Yn y tair ardal arall dywedodd mwyafrif o bobl na fyddai'n gwneud gwahaniaeth, er i tua thraean o bobl ddweud y byddai'n eu gwneud yn fwy hyderus.

¹⁰ Nid yw'r gwahaniaeth hwn yn bwysig yn ystadegol.

Siart 3: A fyddai gofyniad i ddangos prawf adnabod mewn gorsafoedd pleidleisio yn rhoi mwy neu lai o hyder i chi yn niogelwch y system bleidleisio, neu a fyddai'n gwneud dim gwahaniaeth o gwbl?¹¹



1.78 Gall y profiad o ddangos prawf adnabod fod wedi cael effaith gadarnhaol ar lefelau hyder y cyhoedd. Roedd pobl a bleidleisiodd mewn gorsafoedd pleidleisio mewn ardaloedd peilot yn fwy tebygol na'r rheini na bleidleisiodd o ddweud y byddai'r gofyniad i ddangos prawf adnabod yn rhoi mwy o hyder iddynt yn niogelwch y system bleidleisio (52% o gymharu â 37%).

1.79 Roedd 47% o bobl yn ardaloedd y cynlluniau peilot yn credu y byddai gofyniad i ddangos prawf adnabod yn rhoi mwy o hyder iddynt yn niogelwch y system bleidleisio ac roedd 62% yn credu hyn yn yr ardaloedd eraill lle cynhaliwyd etholiadau ym mis Mai 2018.

Y tu hwnt i'r cynlluniau peilot: yr effaith ar hyder y cyhoedd mewn etholiadau yn y dyfodol

1.80 Mae'r dystiolaeth o'r cynlluniau peilot yn awgrymu y gall dangos prawf adnabod mewn gorsafoedd pleidleisio fod wedi cael rhywfaint o effaith gadarnhaol ar lefel hyder y cyhoedd yn niogelwch y system. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn gymysglyd gan nad oedd yr effaith yn gyson ym mhob un o'r ardaloedd peilot.

1.81 Mae'n werth nodi unwaith eto effaith y lefelau cymharol isel o ddiddordeb mewn etholiadau lleol. Fel y nodwyd uchod, roedd pleidleiswyr a ddangosodd ddiddordeb yn yr etholiad yn fwy tebygol o fod yn hyderus na'r rhai na

¹¹ GfK Social and Strategic Research

bleidleisiodd ac efallai fod unrhyw effaith bosibl ar hyder yn sgil gofyniad prawf adnabod yn gyfyngedig pan fo nifer y bobl sy'n pleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio yn fach.

1.82 Byddai angen gwneud gwaith pellach, gan gynnwys gwaith mewn cynlluniau peilot yn y dyfodol, er mwyn helpu'r Llywodraeth a Swyddogion Canlyniadau i ddeall yn well unrhyw gysylltiad rhwng gofyniad prawf adnabod pleidleisiwr a hyder y cyhoedd yn yr etholiad.

Effaith ar ddiogelwch

1.83 Prin iawn yw'r dystiolaeth o gynlluniau peilot Mai 2018 ynghylch p'un a gafodd y gofyniad o ran prawf adnabod effaith uniongyrchol ar ddiogelwch gweithdrefnau etholiad. Yn benodol, nid yw'n bosibl gwerthuso a yw'r gofynion mewn gwirionedd yn atal ymdrechion i gyflawni twyll etholiadol mewn etholiadau.

Canfyddiadau cyffredinol o'r cynlluniau peilot

1.84 Yn yr ardaloedd lle y cynhaliwyd y cynlluniau peilot, mae'r heddluoedd lleol wedi dweud wrthym na chafwyd unrhyw gwynion am dwyll etholiadol mewn gorsafoedd pleidleisio ar gyfer etholiadau Mai 2018. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl asesu a wnaeth y gofyniad o ran prawf adnabod rwystr unrhyw ymdrechion gwirioneddol i gyflawni twyll cambersonadu.

1.85 Mewn ardaloedd eraill lle y cynhaliwyd etholiadau ym mis Mai, 2018 cafwyd tair cwyn am dwyll etholiadol mewn gorsafoedd pleidleisio. Dywedodd heddluoedd yr ardaloedd hynny wrthym eu bod wedi ymchwilio i ddau o'r achosion hyn ond nad oedd angen iddynt gymryd camau pellach. Maent yn dal i ymchwilio i'r achos arall.

1.86 Nid oes unrhyw dystiolaeth uniongyrchol i awgrymu bod y gwahaniaeth hwn o ganlyniad i'r gofynion o ran prawf adnabod mewn ardaloedd lle y cynhaliwyd y cynlluniau peilot.

1.87 Fodd bynnag, gwnaeth gofynion y cynllun peilot gyflwyno gwiriadau adnabod newydd lle nad oedd gwiriadau gynt. Oherwydd hyn, gallwn gasglu ei bod yn debygol bod gofynion y cynllun peilot wedi cael rhywfaint o effaith gadarnhaol ar leihau'r **potensial** ar gyfer twyll etholiadol drwy gambersonadu mewn gorsafoedd pleidleisio.

1.88 Fodd bynnag, ni allwn wneud unrhyw asesiad o'r data sydd ar gael ynghylch natur na graddau'r effaith hon. Ni allwn ychwaith wneud unrhyw asesiad o'r data o'r cynlluniau peilot hyn ynghylch p'un a oedd unrhyw wahaniaeth yn yr effaith ar ddiogelwch rhwng y gofynion gwahanol ym mhob un o ardaloedd y cynlluniau peilot.

Y tu hwnt i'r cynlluniau peilot: yr effaith ar ddiogelwch mewn etholiadau yn y dyfodol

1.89 Efallai na fydd cynlluniau peilot eraill yn helpu i ddarparu tystiolaeth fwy cadarn am effaith gofyniad prawf adnabod ar ddiogelwch etholiadau yn y dyfodol. Mae hyn am nad yw'n bosibl gwerthuso a wnaeth y gofynion rwystro ymdrechion i gyflawni twyll etholiadol mewn etholiadau mewn gwirionedd.

1.90 Fodd bynnag, dylid gwneud mwy o waith cyn cynnal rhagor o gynlluniau peilot er mwyn asesu ymhellach ddiogelwch cymharol dulliau gwahanol o wirio prawf adnabod pleidleiswyr. Byddai'n arbennig o ddefnyddiol casglu mwy o dystiolaeth am lefelau sicrwydd ynghylch manylion adnabod rhywun a ddarperir gan fathau gwahanol o ddogfennau.

1.91 Er enghraifft, mae angen cydbwysu diogelwch mathau gwahanol o ddogfennau prawf adnabod yn erbyn argaeledd y mathau hynny o brawf adnabod. Dylid ystyried y cydbwysedd hwn ymhellach cyn cynnal rhagor o gynlluniau peilot a chyn gwneud unrhyw benderfyniad i weithredu gofyniad o ran prawf adnabod pleidleiswyr ym Mhrydain Fawr.

Ein hargymhellion

1.92 Pan wahoddodd Llywodraeth y DU gynghorau lleol i gynnal cynlluniau peilot prawf adnabod pleidleiswyr ym mis Mai 2018, dywedodd hefyd ei bod yn fodlon ystyried cynnal rhagor o gynlluniau peilot mewn etholiadau yn y dyfodol.

1.93 Rydym yn cytuno y byddai'n ddefnyddiol casglu mwy o dystiolaeth o gynlluniau peilot eraill mewn etholiadau yn 2019. Bydd hyn yn helpu'r Llywodraeth a'r Senedd i benderfynu p'un a ddylid cyflwyno gofyniad prawf adnabod ai peidio mewn etholiadau yn y dyfodol, a sut y dylid cynllunio gofyniad o'r fath.

1.94 Mae'r cylch cyntaf o gynlluniau peilot wedi dangos y gellid cyflwyno cynllun prawf adnabod pleidleiswyr ym Mhrydain Fawr mewn sawl ffordd wahanol. Mae'n iawn y dylai'r Llywodraeth ganolbwyntio yn awr ar fanylion y dystiolaeth bellach sydd ei hangen, a sut y bydd llunio cynlluniau peilot yn y dyfodol yn helpu i ddarparu'r dystiolaeth honno.

1.95 Mae gennym rywfaint o dystiolaeth gyfyngedig o'r cynlluniau peilot hyn sy'n nodi bod pobl iau a'r rheini nad ydynt bob amser yn pleidleisio yn llai tebygol o ddweud y byddent yn ei chael hi'n hawdd dangos prawf adnabod. Credwn fod angen gwneud mwy o waith i edrych ar dystiolaeth ynghylch effaith cynlluniau gwahanol ar y bobl hyn, ac i nodi pa gamau ychwanegol y gellir eu cymryd i leihau'r risg na fyddent yn gallu pleidleisio yn y dyfodol.

1.96 Rydym wedi nodi rhai gwersi pwysig o gynlluniau peilot 2018 yn yr adroddiad hwn ac wedi nodi ein hargymhellion ar gyfer gwaith pellach a

chynlluniau peilot yn y dyfodol isod. Byddai'r argymhellion hyn yn helpu i ddarparu'r sail dystiolaeth orau posibl ar gyfer unrhyw benderfyniadau ynglŷn â gofynion prawf adnabod i bleidleiswyr mewn gorsafoedd pleidleisio ym Mhrydain Fawr yn y dyfodol.

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth y DU sicrhau ystod ehangach o gynghorau lleol i gynnal cynlluniau peilot ym mis Mai 2019

Dylai'r rhain gynnwys cymysgedd o ardaloedd gwledig a threfol, ac ardaloedd â phroffiliau demograffig gwahanol. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod mwy o dystiolaeth am effaith gofynion prawf adnabod pleidleiswyr ar grwpiau gwahanol o bobl.

Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth y DU nodi'n fwy penodol sut y dylid llunio a chynnal cynlluniau peilot ym mis Mai 2019

Dylai'r Llywodraeth ymgymryd â rôl gryfach wrth lunio'r cynlluniau peilot yn 2019, yn lle rhoi'r un faint o hyblygrwydd i Swyddogion Canlyniadau lunio eu cynlluniau eu hunain ag a gawsant yn 2018. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod ystod dda o dystiolaeth ar gael i brofi effaith opsiynau gwahanol mewn rhannau gwahanol o Loegr. Bydd gormod o gynlluniau gwahanol yn ei gwneud yn anoddach i nodi effaith gofynion ar grwpiau gwahanol o bobl.

Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth y DU a Swyddogion Canlyniadau weithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a sefydliadau sy'n cynrychioli pobl ag anghenion gwahanol i gynnal Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer cynlluniau peilot yn y dyfodol

Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod y Llywodraeth a Swyddogion Canlyniadau yn meddwl yn ofalus am effaith bosibl gofynion prawf adnabod pleidleiswyr gwahanol ar gyfer grwpiau gwahanol o bobl. Byddai hefyd yn helpu Swyddogion Canlyniadau i nodi'r ffyrdd mwyaf effeithiol o gyfleu'r gofynion i grwpiau gwahanol o bobl yn eu hardaloedd.

Argymhelliad 4: Dylai cynlluniau peilot yn y dyfodol barhau i gynnwys opsiynau i bobl nad oes ganddynt unrhyw un o'r mathau gofynnol o brawf adnabod

Bydd hyn yn sicrhau na chaiff neb sy'n gymwys ei atal rhag pleidleisio am nad oes ganddo'r prawf adnabod cywir. Er mai dim ond nifer fach o bobl yng nghynlluniau peilot 2018 a ddefnyddiodd opsiynau amgen, bydd dal yn bwysig cynnig yr opsiynau hyn neu opsiynau tebyg mewn cynlluniau peilot yn y dyfodol. Bydd hefyd yn bwysig hyrwyddo'r opsiynau hyn yn fwy eang ac i brofi'r effaith ymarferol os cânt eu defnyddio gan nifer fwy o bleidleiswyr.

Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth y DU gynnal gwaith pellach i nodi pa fathau o brawf adnabod amgen sydd ar gael i bobl a fyddai'n ei chael hi'n anoddach dangos eu pasbort, trwydded yrru neu gerdyn teithio, yn enwedig pobl â nodweddion gwarchoddedig fel y'u diffinnir gan y Ddeddf Cydraddoldeb

Roedd y rhan fwyaf o bleidleiswyr yng nghynlluniau peilot 2018 yr oedd angen iddynt ddangos prawf adnabod ar ffurf llun neu heb lun yn gallu dangos eu pasbort, trwydded yrru neu gerdyn teithio, ond mae rhai grwpiau o bobl yn llai tebygol o fod â'r dogfennau hyn yn eu meddiant. Dylai gwaith pellach, a allai gynnwys ymchwil yn ogystal â rhagor o gynlluniau peilot, edrych ar b'un a fyddai'n ddefnyddiol i'r grwpiau hyn yn enwedig ddangos mathau eraill o brawf adnabod, a dylai hefyd edrych ar effaith staff gorsafoedd pleidleisio.

Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth y DU gynnal gwaith pellach i gasglu mwy o dystiolaeth ar lefelau sicrwydd y prawf adnabod a ddarperir gan fathau gwahanol o ddogfennau

Byddai hyn yn helpu'r Llywodraeth a'r Senedd i asesu buddiannau diogelwch cymharol mathau gwahanol o brawf adnabod, ac i ystyried y rhain yn erbyn yr effaith bosibl ar bleidleiswyr.

Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth y DU gynnal gwaith pellach i gadarnhau a ellid cynnwys cardiau pleidleisio fel prawf adnabod derbyniol heb fod angen technoleg sganio mewn gorsafoedd pleidleisio

Byddai hyn yn helpu i gadarnhau a allai hyn fod yn rhan gosteffeithiol a fforddiadwy o gynllun prawf adnabod yn y dyfodol. Roedd y cynlluniau peilot yn Swindon a Watford yn fwy drud o lawer na'r rhai yn Bromley, Gosport a Woking. Roedd hyn oherwydd cost ychwanegol y sganwyr a'r dechnoleg yr oedd staff yn eu defnyddio yn y gorsafoedd pleidleisio. Dylai gwaith pellach, a allai gynnwys rhagor o gynlluniau peilot, ymchwilio i'r posibilrwydd o wirio cardiau pleidleisio heb ddefnyddio technoleg ddrud o'r fath.

Atodiad A: Crynodeb o'r gofynion o ran prawf adnabod

Bromley

Roedd yn rhaid i bleidleiswyr yn Bromley gymryd naill ai un math o brawf adnabod ar ffurf llun neu ddau fath o brawf adnabod heb lun er mwyn gallu pleidleisio yn eu gorsaf bleidleisio.

Prawf adnabod ar ffurf llun

- pasbort a gyhoeddwyd gan y Deyrnas Unedig, un o wledydd y Gymanwlad neu un o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd
- trwydded yrru cerdyn-llun (gan gynnwys trwydded dros dro) a gyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig neu un o Ddibynwledydd y Goron, neu gan un o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd
- cerdyn adnabod etholiadol a gyhoeddwyd o gan adran 13C (cerdyn adnabod etholiadol: Gogledd Iwerddon) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983
- dogfen mewnfudo fiometrigrig a gyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 5 o Ddeddf Ffiniau'r DU 2007
- cerdyn adnabod a gyhoeddwyd yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd
- Oyster 60+ London Pass
- Freedom Pass (Llundain)
- cerdyn profi oedran (cynllun PASS cenedlaethol)

Prawf adnabod heb lun

- cerdyn debyd neu gerdyn credyd dilys banc neu gymdeithas adeiladu
- cerdyn pleidleisio ar gyfer y digwyddiad pleidleisio
- trwydded yrru (gan gynnwys trwydded dros dro) nad yw ar ffurf cerdyn-llun
- tystysgrif geni
- tystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil
- tystysgrif mabwysiadu
- tystysgrif arfau tanio a roddwyd o dan Ddeddf Arfau Tanio 1968
- cofnod penderfyniad ar fechniaeth a wnaed mewn perthynas â'r pleidleisiwr yn unol ag adran 5(1) o Ddeddf Mechniaeth 1976
- llyfr siec banc neu gymdeithas adeiladu
- datganiad morgais wedi ei ddyddio o fewn 3 mis i ddyddiad y digwyddiad pleidleisio
- datganiad banc neu gymdeithas adeiladu wedi ei ddyddio o fewn 3 mis i ddyddiad y digwyddiad pleidleisio
- datganiad cerdyn credyd wedi ei ddyddio o fewn 3 mis i ddyddiad y digwyddiad pleidleisio

- bil cyfleustod wedi ei ddyddio o fewn 3 mis i ddyddiad y digwyddiad pleidleisio
- llythyr neu ddatganiad archeb y dreth gyngor wedi ei ddyddio o fewn 12 mis i ddyddiad y digwyddiad pleidleisio
- Ffurflen P45 neu Ffurflen P60 wedi ei dyddio o fewn 12 mis i ddyddiad y digwyddiad pleidleisio

Gallai pobl yn Bromley nad oedd ganddynt unrhyw un o'r mathau o brawf adnabod a restrwyd uchod wneud cais i'r Swyddog Canlyniadau am Dystysgrif Adnabod y gellid ei dangos er mwyn pleidleisio yn eu gorsaf bleidleisio.

Gosport

Roedd yn rhaid i bleidleiswyr yn Gosport gymryd naill ai un math o brawf adnabod ar ffurf llun neu ddau fath o brawf adnabod heb lun er mwyn gallu pleidleisio yn eu gorsaf bleidleisio.

Prawf adnabod ar ffurf llun

- pasbort y DU neu'r UE (y DU, Cymanwlad, Ardal Economaidd Ewropeaidd)
- trwydded yrru cerdyn-llun, un llawn neu dros dro (y DU, Dibynwlad y Goron neu'r UE)
- cerdyn adnabod etholiadol Gogledd Iwerddon
- dogfen mewnfudo fiometrigrig
- cerdyn adnabod yr Ardal Economaidd Ewropeaidd
- tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn dangos eich cyfeiriad cofrestredig
- cerdyn adnabod ffotograffig y Weinyddiaeth Amddiffyn
- cerdyn Braint y Weinyddiaeth Amddiffyn
- cerdyn bws/teithio ar ffurf llun gan unrhyw gyngor yn Hampshire

Prawf adnabod heb lun

- trwydded yrru heb lun
- tystysgrif geni
- tystysgrif mabwysiadu
- tystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil
- cerdyn debyd/credyd banc neu gymdeithas adeiladu

Prawf adnabod heb lun a gyhoeddwyd o fewn 12 mis i'r diwrnod pleidleisio:

- cyfriflen, megis datganiad banc neu forgais
- llythyr neu ddatganiad archeb am dreth gyngor
- bil cyfleustod
- P2, P6, P9, P45 neu P60
- datganiad o fudd-daliadau neu hawl i fudd-daliadau

Gallai pobl yn Gosport nad oedd ganddynt unrhyw un o'r mathau o brawf adnabod a restrwyd uchod wneud cais i'r Swyddog Canlyniadau am Lythyr Adnabod Etholiadol y gellid ei ddangos er mwyn pleidleisio yn eu gorsaf bleidleisio.

Swindon

Cerdyn pleidleisio

Roedd yn rhaid i bleidleiswyr yn Swindon fynd â'u cerdyn pleidleisio er mwyn gallu pleidleisio yn eu gorsaf bleidleisio.

Prawf adnabod ar ffurf llun

Gallai pleidleiswyr a oedd wedi colli eu cerdyn pleidleisio neu nad oeddent wedi mynd ag ef gyda nhw i'r orsaf bleidleisio ddangos un math o brawf adnabod ar ffurf llun:

- Pasbort (y DU, yr UE, Cymanwlad) (gall fod yn gyfredol neu anghyfredol)
- Trwydded yrru cerdyn-llun, gan gynnwys trwydded dros dro (y DU, Dibynwlad y Goron neu'r UE)
- Cerdyn Adnabod Etholiadol Gogledd Iwerddon
- Dogfen Mewnfudo Fiometrigrig
- Cerdyn Adnabod Etholiadol yr Ardal Economaidd Ewropeaidd

Ardystio

Gallai pobl yn Swindon nad oedd ganddynt unrhyw un o'r mathau o brawf adnabod a restrwyd uchod ddod â rhywun arall gyda nhw i'w gorsaf bleidleisio er mwyn cadarnhau pwy oeddent. Roedd yn rhaid i'r person hwn fod wedi ei gofrestru i bleidleisio yn yr un orsaf bleidleisio ac a oedd eisoes wedi pleidleisio ei hun neu a allai bleidleisio drwy ddangos ei gerdyn pleidleisio neu fath arall o brawf adnabod.

Watford

Cerdyn pleidleisio

Roedd yn rhaid i bleidleiswyr yn Watford fynd â'u cerdyn pleidleisio gyda nhw er mwyn gallu pleidleisio yn eu gorsaf bleidleisio.

Os oedd rhywun wedi colli ei gerdyn pleidleisio neu wedi anghofio mynd ag ef i'r orsaf bleidleisio gydag ef gallai ddangos:

- Pasbort Prydeinig, Ewropeaidd neu'r Gymanwlad dilys
- Trwydded yrru cerdyn-llun y DU neu'r UE (llawn neu dros dro)
- Cerdyn credyd neu ddebyd dilys
- Trwydded Preswyllo Fiometrigrig
- Cerdyn Adnabod Etholiadol yr Ardal Economaidd Ewropeaidd
- Cerdyn Adnabod Etholiadol Gogledd Iwerddon

Woking

Roedd yn rhaid i bleidleiswyr yn Woking fynd ag un o'r mathau canlynol o brawf adnabod ar ffurf llun er mwyn gallu pleidleisio yn eu gorsaf bleidleisio.

- Pasbort (y DU, yr UE, Cymanwlad)
- Trwydded Yrru Cerdyn-llun y DU (llawn neu dros dro)
- Trwydded Yrru'r UE
- Cerdyn adnabod ffotograffig yr Ardal Economaidd Ewropeaidd
- Trwydded Preswyllo Fiometrigrig y DU
- Cerdyn Adnabod Etholiadol Gogledd Iwerddon
- Pàs Bws Pobl Hŷn Surrey
- Pàs Bws Pobl Anabl Surrey
- Cerdyn Tocyn Myfyrwyr Surrey
- Cerdyn Rheilffordd 16-25
- Cerdyn-llun Tocyn Tymor Rheilffordd

Gallai pobl yn Woking nad oedd ganddynt unrhyw un o'r mathau o brawf adnabod a restrwyd uchod wneud cais i'r Swyddog Canlyniadau am Gerdyn Etholwr Lleol ffotograffig.